Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Dyffryn Ogwen**
**Ffordd Coetmor**
**Bethesda**
**Gwynedd**
**LL57 3NN**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2022**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Dyffryn Ogwen wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella safonau

Mewn gwersi a thros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn gywir ac yn adeiladu'n fuddiol ar y wybodaeth honno wrth gwblhau gwaith newydd.

Yn gyffredinol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau cyfathrebu cryf ar lafar. Maent yn gwrando'n astud a pharchus ar yr athro ac ar eu cyfoedion ac maent yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gwrando'n ofalus ar ymatebion unigolion neu grwpiau ac yn cynnig sylwadau aeddfed gan ddefnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth siarad ac yn barod iawn i gyfrannu ar lafar, gan gynnig atebion estynedig yn aml. Maent yn cydweithio'n effeithiol mewn grwpiau trafod gan rannu eu syniadau'n frwdfrydig. Mae disgyblion uwch eu gallu yn siaradwyr naturiol a rhugl sydd yn cyfrannu'n synhwyrol at drafodaethau gan ddefnyddio ystod eang o eirfa yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth iddynt drafod a ddylai pawb fod â'r hawl i brotestio. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynnig atebion byr, anatblygedig gan ddefnyddio iaith fratiog a geirfa gyfyngedig.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen cadarn. Maent yn fedrus wrth gywain gwybodaeth a lleoli ffeithiau ac maent yn dod i gasgliadau dilys wrth ddarllen amrywiol destunau yn y ddwy iaith. Mae mwyafrif y disgyblion yn llithr ddarllen yn llwyddiannus i ganfod prif negeseuon a gwybodaeth allweddol. Maent yn craff ddarllen darnau estynedig er mwyn canfod arddull a thueddiadau. Mae lleiafrif y disgyblion yn dehongli a dod i gasgliadau cywir am dôn a thuedd testunau cyferbyniol. Er enghraifft, maent yn adnabod yn graff sut mae ysgrifennydd yn dwyn perswâd ar y darllenydd am fanteision bwyta cig a bod yn llysieuwr.

Mae llawer o ddisgyblion yn gweud datblygiad cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Yn gyffredinol, maent yn ysgrifennu'n eglur a rhugl i ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd yn y mwyafrif o bynciau. Mae mwyafrif y disgyblion yn strwythuro'u gwaith yn drefnus gan ddefnyddio amrywiaeth dda o frawddegau ac maent yn paragraffu'n briodol. Mae gwaith ysgrifenedig ychydig sylweddol o ddisgyblion yn cynnwys gwallau sylfaenol cyson, gan gynnwys bratiaith, gwallau iaith a sillafu esgeulus.

Mewn gwersi Cymraeg a Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn ailddrafftio gwaith yn llwyddiannus ac yn annibynnol. Maent yn ystyried sylwadau'r athro ac yn gwella ansawdd eu gwaith drwy amrywio'r brawddegu, addasu ansoddeiriau ac ychwanegu

geirfa fwy soffistigedig. Mae hyn yn nodwedd gref. Mae lleiafrif ydisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig crefftus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth ddisgrifio Syria cyn ac ar ôl y ffrwydro. Mae disgyblion uwch eu gallu yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau ysgrifennu creadigol wrth greu disgrifiadau clodwiw o brofiadau Malala ac Yusra mewn ffordd aeddfed a sensitif.

Mewn gwersi mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o dechnegau rhif. Maent yn dechrau cymhwyso'r medrau hyn yn addas mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn cyfrifo cyfaint a dwysedd ciwboid yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hefyd yn atgyfnerthu eu medrau rhif ymhellach mewn sesiynau cofrestru er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o ffeithiau a rheolau rhif pwysig.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws mwyafrif y pynciau. Gwnânt gynnydd cadarn wrth ddefnyddio apiau a rhaglenni pwrpasol i gyflwyno eu gwaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac at yr ysgol. Maent yn gweithio'n ddiwyd mewn gwersi ac yn dyfalbarhau mewn tasgau. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau bychan ac yn annibynnol ar yr athro. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at eu cyfoedion a'r staff. Maent yn ymfalchïo yn eu hardal, eu Cymreictod ac yn eu treftadaeth Gymreig.

## A2. Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cynnig arweinyddiaeth ysgogol ac wedi cyflwyno strategaethau buddiol i sicrhau gwelliant yn ansawdd yr addysgu a'r asesu. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i'r holl staff sy'n ffocysu ar nodweddion allweddol addysgu effeithiol. O ganlyniad, mewn llawer o achosion, mae athrawon yn creu awyrgylch ddysgu sy'n annog ac yn herio disgyblion i gyrraedd eu potensial.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi'n effeithiol ac yn cyflwyno testunau gydag angerdd a brwdfrydedd. Maent yn cyflwyno gweithgareddau sy'n tanio diddordeb y disgyblion ac yn eu herio i feddwl ymhellach. Mae llawer o athrawon yn cynnig cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion tra'n cylchu'r dosbarth. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn ymateb yn effeithiol i anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu ac yn paratoi adnoddau pwrpasol i yrru'r dysgu. Mewn lleiafrif o bynciau, mae gor-ddefnydd o daflenni gwaith di-angen.

Mae llawer o athrawon yn fodelau iaith cadarn ac maent yn cywiro iaith fratiog y disgyblion yn gyson ac yn eu hannog i wella ansawdd eu hiaith. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae diffygion yn safonau iaith yr athrawon eu hunain ac mae eu disgwyliadau ieithyddol yn rhy isel.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn holi amrywiaeth dda o gwestiynau i wirio dealltwriaeth ac i brocio'r meddwl, yn ogystal â chadw'r dysgu yn chwim a bywiog. Fodd bynnag, yn y gwersi eraill, mae'r cwestiynu'n rhy arwynebol ac mae diffyg cyfleoedd i ddisgyblion ateb yn estynedig.

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig pwrpasol a chynhwysfawr ar waith disgyblion sy’n nodi’n glir sut y gallant wella eu gwaith. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymateb i sylwadau'r athro ac i feddwl yn annibynnol cyn gwneud gwelliannau. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r adborth gan yr athro yn ddigon effeithiol oherwydd mae'r sylwadau'n rhy fyr neu'n organmoliaethus. Mewn lleiafrif o bynciau, mae athrawon yn gosod tasgau asesu cyfoedion yn rhy aml ac nid yw hyn bob amser yn arwain at welliant.

### A3. Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion, yn enwedig mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi rhoi ystod o strategaethau newydd, buddiol ar waith i wella ei darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. Trwy arweinyddiaeth egnïol arweinwyr canol sydd â chyfrifoldeb am y medrau hyn a chydweithio llwyddiannus gyda’r uwch dîm rheoli, mae staff wedi elwa o hyfforddiant ac adnoddau gwerthfawr. Mae llawer o athrawon yn defnyddio’r deunyddiau hyn yn effeithiol pan fyddant yn cynllunio gwersi i gefnogi datblygiad medrau disgyblion. Mae hyn wedi sicrhau llawer o arfer dda ar draws yr ysgol.

Ceir cyfleoedd cynhwysfawr ar draws y pynciau i ddisgyblion gymhwyso’u medrau llythrennedd yn y ddwy iaith. Mae arweinwyr wedi nodi'n gywir ddatblygiad llafaredd, uwch-fedrau darllen a chywirdeb ieithyddol fel blaenoriaethau ac wedi cyflwyno ystod o strategaethau buddiol ysgol gyfan. Yn benodol, mae’r ffocws cadarn ar ddatblygu llafaredd wedi meithrin llawer o siaradwyr huawdl. Serch hyn, nid yw ychydig o athrawon yn cyfrannu’n ddigonol at yr ymdrechion i wella medrau llythrennedd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu ac addasu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn sesiynau cofrestru ac yn y pynciau perthnasol. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol i nodi blaenoriaethau addas ar gyfer datblygu medrau rhif. Yn ogystal, mae tasgau cynhesu pwrpasol ac effeithiol ar ddechrau pob gwers fathemateg.

Mae’r cydlynwyr llythrennedd a rhifedd wedi creu gwefannau atyniadol o ansawdd uchel iawn. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau pwrpasol i gynorthwyo athrawon i gynllunio tasgau cyfoethog mewn gwersi ac mewn sesiynau cofrestru. Yn ogystal, mae’r wefan rhifedd yn cynnwys canllawiau i rieni i gefnogi eu plant ac i ddisgyblion ddeall, rhesymu a datrys gwaith rhif amrywiol. Mae arweinwyr yn gwerthuso a diweddaru’r cynnwys ar y gwefannau yn gyson er mwyn sicrhau bod y deunydd yn berthnasol a buddiol i’r staff a’r disgyblion.

Mae cyfleoedd ymestynnol i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae’r rhain yn cynnwys tasgau ymchwilio buddiol.

Mae’r ysgol wedi gwella ei darpariaeth i gefnogi disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn effeithiol. Mae llawer o’r disgyblion hyn yn cael cymorth gwerthfawr ac arbenigol i gyflymu eu cynnydd yn y medrau sylfaenol hyn. Mae arweinwyr yn gwerthuso ansawdd ac effaith y ddarpariaeth yn barhaus ac yn gwneud newidiadau addas, lle bo’n briodol.

## A4. Gwella ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel

Ers cyfnod yr arolygiad craidd ym Medi 2019, mae’r rhan fwyaf o arweinwyr wedi cydweithio’n egnïol a chynhyrchiol er mwyn codi safonau disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth. Maent wedi ffocysu’n gadarn ar ddiffygion pwysig a nodwyd yn yr arolygiad craidd ac wedi cyflwyno strwythurau a phrosesau buddiol i fynd i’r afael â hwy. Mae uwch arweinwyr wedi darparu hyfforddiant buddiol a chyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr i helpu athrawon wella eu hymarfer a chodi eu disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni.

Mae trefniadau rheoli llinell yn gadarn ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn effeithiol. Mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi’u diffinio’n glir ac yn ddealladwy i bawb. Ceir trefniadau cyson ac agendâu cyffredin i gyfarfodydd ac maent yn canolbwyntio’n briodol ar flaenoriaethau priodol, sef cynnydd disgyblion, darpariaeth ar gyfer y medrau ac ansawdd yr addysgu.

Mae adnabyddiaeth y rhan fwyaf o arweinwyr canol o gryfderau a meysydd ’'w datblygu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb yn briodol. Drwyddi draw, mae prosesau sicrhau ansawdd yn gadarn. Mae’r ysgol yn cynllunio cyfres o weithgareddau monitro pwrpasol, megis craffu ar waith disgyblion ac arsylwi gwersi. Mae llawer o arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o ganfyddiadau o weithgareddau cyrchu barn disgyblion ac yn gwneud gwelliannau buddiol i’w darpariaeth o ganlyniad. Ceir trafodaethau manwl ac effeithiol rhwng arweinwyr canol ac uwch arweinydd i osod ac adolygu targedau disgyblion unigol ac i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial. Mae arfarniadau o wersi a gwaith disgyblion yn cynnwys sylw priodol i ansawdd yr addysgu a'r asesu a rhai elfennau o safonau, megis llafaredd ac ysgrifennu. Yn gyffedinol, nid yw’r arfarniad o’r cynnydd cyffredinol a wna’r disgyblion yn eu gwybodaeth a'u medrau mewn gwersi a thros amser yn ddigon cynhwysfawr.

Mae cynllun gwella’r ysgol a’r rhan fwyaf o gynlluniau gwella adrannol yn glir ac wedi'u seilio ar feysydd gwella priodol a phwysig. Serch hynny, maent yn seiliedig yn unig ar ganfyddiadau'r arolygiad craidd a’r diffygion a nodwyd. Nid yw'r ysgol wedi adnabod meysydd eraill i'w gwella trwy eu prosesau hunanwerthuso eu hunain. Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ond nid yw eu ròl fel cyfaill beirniadol sy’n herio’r ysgol i wella wedi datblygu’n llawn.

Mae’r pennaeth wedi ffocysu’n briodol ar gefnogi lles disgyblion a staff dros gyfnod heriol y pandemig. Mae’r rhan fwyaf o arweinwyr wedi gweithio’n ddidrugaredd i ddatblygu ymdeimlad cryf o dîm a chyd-ddyhead i wella agweddau pwysig o waith yr ysgol. O ganlyniad i hyn, mae gwelliannau cryf yn ansawdd yr addysgu ac yn safonau a medrau disgyblion ers adeg yr arolygiad craidd.

## A5. Grymuso prosesau rheoli perfformiad a sicrhau trefn atebolrwydd glir

Mae prosesau rheoli perfformiad a'r drefn atebolrwydd yn gadarn ac yn gyson ar draws yr ysgol. Mae pwrpas rheoli perfformiad a'r disgwyliadau hyn yn ddealladwy i’r holl staff.

Mae'r drefn o osod amcanion rheoli perffromiad staff yn glir a chydlynus ac mae ffocws cadarn ar brif feysydd gwella’r ysgol, sef gwella addysgeg a chodi safonau a medrau disgyblion. Mae staff ac arweinwyr wedi adnabod anghenion hyfforddiant ac

wedi alinio’r rhain yn briodol i gyd-fynd ag amcanion personol. Mae'r camau gweithredu yn drwyadl ac yn cynnwys trefniadau monitro ac adolygu priodol.

Yn gyffredinol, mae prosesau rheoli perfformiad wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr yn mynd i’r afael â thangyflawni staff yn ddigon buan.

**Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**